




Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**



Creu Lleoedd i'r Gymraeg Ffynnu

Crynodeb Digwyddiad Rhwydwaith Ar-lein

Cyflwyniad

Ar 25 Tachwedd 2021, cynhaliodd Cymorth Cynllunio Cymru ac IAITH: Canolfan Cynllunio Iaith Cymru, gynhadledd fini ar y cyd ar-lein a ddaeth at ei gilydd, gynllunwyr, arbenigwyr y Gymraeg a Chynghorau Cymuned a Thref sy'n cymryd camau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, cefnogi'r defnydd o Gymraeg yn eu cymunedau ac yn ystyried, neu'n cymryd rhan, mewn cynllunio a chreu lleoedd.

Elusen yw Cymorth Cynllunio Cymru sy'n cefnogi ymgysylltiad cymunedol yn y system cynllunio yng Nghymru. Mae IAITH yn ganolfan rhagoriaeth ar gynllunio iaith sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn datblygu ymarferion dwyieithog mewn cyd-destunau cymunedol a sefydliadol. Cyflwynwyd y digwyddiad mewn partneriaeth fel rhan o raglen flynyddol o ddiwyddiadau rhwydwaith Cymorth Cynllunio Cymru sydd wedi'u cynllunio er mwyn dod â chynllunwyr a chymunedau ynghyd i drafod pynciau cynllunio perthnasol.

Rhoddodd y weminar drosolwg o gyd-destun polisi cynllunio'r Gymraeg gan gyflwyno astudiaethau achos ledled Cymru ble mae gwaith datblygu cymunedol a phenderfyniadau cynllunio wedi mynd i'r afael â hyn, mewn mannau gwledig a threfol. Canolbwyntiodd y digwyddiad hefyd ar gyfraniad cynllunio at Nod Llesiant y Gymraeg yn Ffynnu a sut mae'n rhaid iddo sicrhau fod yr amodau hynny sy'n hanfodol i'r Gymraeg ffynnu yn cael eu hystyried. Derbyniodd cyfranogwyr hefyd wybodaeth ynghylch sut i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg, a ffynonellau o wybodaeth am y Gymraeg yn eu hardaloedd a fydd yn eu galluogi i gyfrannu at yr agwedd hon o Greu Lleoedd.

Roedd Cymorth Cynllunio Cymru ac IAITH yn falch ac yn ddiolchgar o groesawu siaradwyr o bob rhan o Gymru sy'n weithgar ar lefel gymunedol a chynllunwyr gofodol ac iaith a ddarparodd astudiaethau achos o'u gwaith. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod y digwyddiad. Mae cyflwyniadau llawn a'r pecyn adnoddau ar gael i'w lawrlwytho o'r rhaglen - [PAW Agenda \(iaith.cymru\)](http://PAW Agenda (iaith.cymru))

Roedd 36 o gynrychiolwyr a siaradwyr yn bresennol yn y digwyddiad a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned a Thref, grwpiau cymunedol ac awdurdodau cynllunio lleol.

Cyd-destun Cynllunio Creu Lleoedd a Defnydd Tir

Cyflwynodd James Davies o Cymorth Cynllunio Cymru rai o'r pynciau allweddol a oedd i'w trafod yn y digwyddiad gan dynnu sylw at Gaffi Abersoch fel enghraifft o ble roedd diffyg enw Cymraeg yn un ystyriaeth berthnasol mewn gwrthod caniatâd cynllunio ar gyfer caffi. Pwysleisiodd James serch hynny fod amrywiaeth eang o ffactorau eraill wedi cael eu hystyried, a bod hyn wedi tanlinellu pwysigrwydd agwedd gyfannol tuag at faterion o'r fath.

Bu James yn tynnu sylw at y fframwaith cynllunio cyfredol sy'n berthnasol i gynllunio a'r Gymraeg, gan gynnwys diffiniad Polisi Cynllunio Cymru o Greu Lleoedd a datganiadau perthnasol eraill: Cymru'r Dyfodol, cynllun cenedlaethol Cymru; Nodyn Cyngor Technegol 20; a Chynlluniau Datblygu Lleol. Darparwyd dolenni ar gyfer y rhain yn yr agenda / pecyn adnoddau [PAW Agenda \(iaith.cymru\)](http://PAW.Agenda.iaith.cymru). Bu James hefyd yn tynnu sylw at ymgynghoriad cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyflwyno dosbarthiad defnydd newydd ar gyfer ail gartrefi yng Nghymru, sydd i'w weld yma: <https://llyw.cymru/deddfwriaeth-pholisi-cynllunio-ar-gyfer-ail-gartrefi-llety-gwyliau-tymor-byr>

Creu Lleoedd i'r Gymraeg Ffynnu

Cyflwynodd Dr. Kathryn Jones o IAITH: Canolfan Cynllunio Iaith Cymru y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ehangach ar gyfer yr iaith Gymraeg, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (a.78 (1)), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Esboniodd Kathryn ddyletswyddau a gofynion perthnasol y gwahanol ddeddfau, yn benodol (ar lefel awdurdod lleol) Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Strategaethau 5 mlynedd Hybu'r Gymraeg a Chynlluniau Llesiant statudol.

Aeth Kathryn yn ei blaen i esbonio sut yr oedd ar gynghorau tref a chymuned gyfrifoldeb i helpu i gyflawni nod Cymraeg 2050 o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ledled Cymru a chynyddu defnydd bob dydd o'r Gymraeg. Daeth Kathryn i ben trwy archwilio'r hyn y gallai Cynghorau Cymuned a Thref ei wneud mewn perthynas â hyn. Enghreifftiau oedd gweithredu'n ddwyieithog, archwilio sut y mae'r amcanion o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn cael eu gwireddu yn y materion sy'n destun ymgynghoriadau cyhoeddus a cheisiadau cynllunio, trwy ddyfarnu grantiau ac o fewn prosiectau datblygu'r gymuned.

Datblygiad Cymunedol a Ffyniant y Gymraeg mewn Cyd-destun Trefol (Merthyr Tudful)

Esboniodd Lis Mclean o Ganolfan Soar rôl Menter Iaith Merthyr Tudful; eu nod oedd blaenoriaethu datblygiad y Gymraeg, y gymuned, a'r economi leol. Esboniodd Lis fod tri llinyn i waith Canolfan Soar:

- Cadwraeth adeiladau hanesyddol
- Datblygu'r celfyddydau er budd y gymuned
- Datblygu ac ehangu'r gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu cynnig o fewn y gymuned

Mae gan y sefydliad 47,000 o ymwelwyr y flwyddyn, mae'n cyflogi 20 o bobl ac yn cynnal 200 o weithgareddau'r flwyddyn. Nod strategol Canolfan Soar yw cyfrannu at adfywio canol tref Merthyr, trwy gynig lle i bobl gwrrdd, dysgu, cymdeithasu, ac ymgysylltu ag addysg a'r celfyddydau. Bwriad ei weithgareddau yw magu hyder, cynyddu hunan-barch ac ehangu gorwelion trwy gyfrwng y celfyddydau ac addysg ochr yn ochr â chyfrannu at ddatblygu'r economi leol.

Tynnodd Lis sylw at y ffaith fod y Ganolfan ar lefel leol yn gweithio'n llwyddiannus ac yn strategol gyda'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill i gyfrannu tuag at brosiectau adfywio a diwylliannol lleol, "amcangyfrifir bod cyfanswm yr effaith economaidd a gynhyrchir gan Ganolfan Soar o fewn economi De Cymru yn £1.29 -£1.30 miliwn."

Safbwynt Cyngorau Cymuned

Bu Gareth Ioan o Gyngor Cymuned Llanllwchaearn yn siarad am ddatblygiad cymunedol yn yr iaith Gymraeg o safbwynt Cyngorau Cymuned a Thref. Esboniodd fod gan ranbarth ei Gyngor boblogaeth uchel o siaradwyr Gymraeg, a bod yr iaith yn neilltuoel bwysig wrth Greu Lleoedd yn ardaloedd cefn gwlad.

Soniodd Gareth am y cyfrifoldeb sydd ar Gyngorwyr i fod yn ymwybodol o strategaethau a chynlluniau llesiant y llywodraeth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a sicrhau ansawdd bywyd gwell i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bu hefyd yn trafod y potensial creadigol sy'n bodoli mewn cyngor tref neu gymuned fel plattform i weithredu prosiectau datblygu cymunedol rhagweithiol ac arwyddocaol er budd y gymuned - gan gynnwys cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg.

Aeth Gareth yn ei flaen i ystyried sut y gall cyngorau cymuned hyrwyddo a chynnal y Gymraeg fel iaith fyw a hyfyw yn eu cymunedau. Yn gyntaf, trwy ddefnyddio mwy o Gymraeg - nid yn unig yn yr agenda a'r cofnodion ond o fewn trafodaethau a gweithgareddau'r cyngor ei hun yn ogystal. Yn ail, yn eu hymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus trwy bwysu a mesur cynlluniau ac argymhellion o ran hyfywedd y Gymraeg yn yr ardal leol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau cynllunio. Ond yng nghyd-destun cynllunio, roedd Gareth yn teimlo y gallai fod angen help ar gyngorwyr cymuned (ac eraill) ar sut i fesur effaith datblygiadau lleol ar y Gymraeg. Yn drydydd, mae'n bosibl i gyngor cymuned gyfrannu at greu amgylchedd Cymraeg cadarnhaol mewn ardal trwy'r pwerau sydd ganddo o ran enwi strydoedd a chodi arwyddion gwybodaeth ac yn y blaen. Mae'r hawl i glustnodi grantiau yn gyfrwng arall y gellir ei ddefnyddio gan gyngorau cymuned i ddylanwadu yn gadarnhaol ar hyfywedd y Gymraeg; trwy gefnogi sefydliadau lleol, cymdeithasau a grwpiau sy'n defnyddio'r Gymraeg a chyfrannu'n gadarnhaol at ei diwylliant lleol a'i hyfywedd. Yn olaf, ac yn bwysicaf oll efallai, mae yna gyfle i fod yn rhagweithiol a chreadigol.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi'r hawl i gyngorau cymuned "... wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a'u cymunedau" sy'n cynnwys hyfywedd y Gymraeg. Cyfeiriodd Gareth at Gweithredu Lleol [Creu cynllun gweithredu iaith: canllawiau i gymdogaethau | LLYW.CYMRU](#), micro-offeryn cynllunio ieithyddol a grëwyd ganddo er mwyn helpu grwpiau cymunedol adnabod anghenion datblygu lleol o ran y Gymraeg. Mae'r cyngor cymuned yn gyfrwng da ar gyfer gweithredu nifer o syniadau a phrosiectau yn lleol ond efallai nid pob tro. Yn aml, sefydliadau eraill yw'r cyfryngau gorau. Ond mae yna botensial i'r cyngor weithredu fel catalydd, adnabod

gofynion, ysgogi partneriaethau a gweithredu mewn partneriaeth ag eraill - h.y. cymryd y rôl arweiniol o fewn y gymuned ac arwain ar y broses hon o 'greu lleoedd'.

Gwneud Penderfyniadau Cynllunio Defnydd Tir a'r Gymraeg

Archwiliodd Owain Wyn o Ymgynghoriaeth Burum sawl astudiaeth achos er mwyn egluro elfen cynllunio defnydd tir y Gymraeg. Dechreuodd trwy nodi rhai darnau perthnasol o ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio sy'n egluro pwysigrwydd y Gymraeg o fewn y system cynllunio o ran creu polisiau, a phenderfyniadau cynllunio. Pwysleisiodd y "Dylai'r system Cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg ac wrth wneud hynny ystyried ei defnydd a'r nod llesiant ar gyfer Ffyniant y Gymraeg." Cyfeiriodd hefyd at amcan Cymru'r Dyfodol 2040 "Cymru lle mae pobl yn bywmewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu".

Bu Owain yn trafod, wrth wneud penderfyniadau cynllunio y "Gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gymryd sylw o'r ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio". Esboniodd na ddylai polisiau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu, yn seiliedig ar allu ieithyddol (unigolyn), ac na ddylent geisio rheoli tai.

Aeth Owain yn ei flaen i gynghori, pe bai angen, y gellir cynnal asesiadau effaith iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr arfaethedig nad ydynt wedi eu cynnwys mewn cynllun datblygu ac sydd o fewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd i'r iaith. Bu'n datgan pwysigrwydd diffinio'n glir ardaloedd o'r fath o fewn y cynllun datblygu.

Daeth Owain i ben trwy ddatgan y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i bob awdurdod lleol ystyried sut y bydd eu cynllun datblygu lleol yn cyfrannu at greu lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Safbwynt Awdurdod Cynllunio Lleol

Cychwynnodd Angharad Crump a Ffreuer Owen o Gyngor Sir Ynys Môn eu cyflwyniad trwy amlinellu'r sylfaen bolisi lleol yng Ngwynedd a Sir Fôn gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a chanllawiau cynllunio atodol - "Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021". Nod y Cyngor ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld bod cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a bod y canran yn cynyddu i o leiaf 60.1% fel yr oedd yn 2001.

Esboniodd Angharad a Ffreuer sut y mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg yn y broses gynllunio. Yn unol â Pholisi PS1 rhaid i ddatblygwyr nodi a ddylid paratoi datganiad/asesiad o'r Gymraeg er mwyn asesu a chadarnhau a fydd y datblygu yn diogelu, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r meini prawf cynaliadwyedd. Mae'n ofynnol iddynt asesu i ba raddau y mae'r datblygu'n debygol o gael effaith positif, niwtral neu negyddol ar natur ieithyddol yr ardal.

Gwnaethant ddefnyddio dwy astudiaeth achos er mwyn pwysleisio dull gweithredu'r Cyngor: Prosiect gorsaf bŵer Wylfa Newydd Horizon a phrosiect ynni llanw Morlais, ill dau wedi'u pennu gan Lywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru. Yn y ddau achos, nodwyd yn

gynnar yr angen am asesiad o'r Gymraeg yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Elwodd y ddau brosiect o ymgysylltu'n gynnar â swyddogion cynllunio, polisi, a'r Gymraeg, er mwyn cytuno ar y cwmpas a nodi'r ardal yr effeithiwyd arni, sefydlu gwaelodlin defnydd a phroffil iaith y boblogaeth bresennol a phoblogaeth y dyfodol, a nodi'r ffynonellau data mwyaf cyfredol a pherthnasol.

Fe nodwyd y gallai'r wybodaeth allweddol sy'n dylanwadu casgliadau'r datganiad/asesiad Cymraeg gynnwys:

- O ble y daw'r gweithlu?
- A fyddant yn siarad Cymraeg?
- A fyddant yn ymgartrefu yn yr ardal a beth am eu teuluoedd?
- Pwy fydd y contractiwr?

Aeth Angharad a Ffreuer ymlaen i egluro'r hyn y byddai ei angen mewn asesiad o'r Gymraeg. Mae angen paratoi asesiadau o'r Gymraeg ar wahân ar gyfer gwahanol gamau'r prosiect -e.e. y cam adeiladu a'r cam gweithredol - i gyfrif am effeithiau tebygol gwahanol. Trafodwyd rôl amodau cynllunio. Esboniwyd ei bod yn bwysig ystyried yr asesiad o'r Gymraeg yn ddogfen 'fyw'. Yn olaf, dylai asesiadau o'r fath lunio strategaeth liniaru, optimeiddio a monitro ar gyfer prosiectau mawr, hirdymor.

Pwysleisiodd Angharad a Ffreuer bwysigrwydd holi barn. Mae'n bwysig nodi ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol, e.e. Fforwm Cymraeg Ynys Môn, Cynghorau Tref a Chymuned, Grwpiau cymunedol a hyrwyddwyr lleol y Gymraeg. Pwysleisiwyd pwysigrwydd defnyddio'r broses cyn ymgeisio fel cyfle i roi barn gynnar ar ddatganiad/asesiad y Gymraeg fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus y datblygwr.

Daeth y cyflwyniad i ben trwy edrych ar liniaru ac optimeiddio a gallai mesurau posibl gynnwys:

- Ystyried yr iaith yn rhan o'r trefniadau caffael
- Cefnogi cadwynau cyflenwi lleol
- Sicrhau swyddi lleol
- Mabwysiadu polisi iaith sy'n cyd-fynd â'r awdurdod lleol
- Casglu tystiolaeth ar sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg neu wersi Cymraeg ar gyfer y gweithlu
- Agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg
- Defnyddio enwau Cymraeg
- Parchu a digolledu'r gymuned leol os yw'n briodol
- Ymgysylltu â'r gymuned leol

Cloi'r Sesiwn

Roedd y drafodaeth yn tanlinellu'r angen am fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion a godwyd yn ystod y digwyddiad, a byddai Cymorth Cynllunio Cymru a IAITH: Canolfan Cynllunio Iaith Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r rhain. Yn gyffredinol, cytunwyd

bod angen dull cyfannol i sicrhau ffyniant y Gymraeg yn rhan o'r broses creu lleoedd a bod cydweithrediad yr holl bartïon yn allweddol er mwyn ysgogi newid.

Gwerthusiad ac Adborth y Gynulleidfa

Roedd cynulleidfa gymysg yn bresennol yn y digwyddiad, 60% Awdurdod Cynllunio Lleol, 20% Cyngor Cymuned a Thref, 14% Cynllunwyr y Sector Preifat a 6% sefydliadau trydydd sector.

Ar ddechrau'r digwyddiad, roedd dwy ran o dair o'r gynulleidfa yn graddio eu gwybodaeth am y Gymraeg yn y broses gynllunio yn 'dda' neu'n 'dda iawn' a'r gweddill yn graddio eu gwybodaeth yn 'weddol' neu'n 'wael'. Ar ddiwedd y digwyddiad, gwnaeth 8% raddio eu gwybodaeth yn 'rhagorol' ac 84% yn graddio eu gwybodaeth yn 'dda iawn'.

Cafodd y digwyddiad dderbyniad da a derbyniwyd y sylwadau canlynol gan y rhai a oedd yn bresennol.

“Roedd y digwyddiad yn wych”

“Cyflwyniadau defnyddiol a pherthnasol”

“Diddorol clywed ystod o safbwyntiau”

“Diddorol ac ysbrydoledig”